



## **Canllawiau ar gyfer creu coetir ar Dir Comin a Thir Mynediad Agored Medi 2015**

### **1. Canllawiau arbennig ar dir comin**

Efallai y bydd Creu Coetir ar dir comin yn effeithio ar fynediad i dir a hawliau eraill deiliaid tir comin. Mae angen caniatâd Llywodraeth Cymru dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 a Deddf Tiroedd Comin 2006 cyn codi ffensys i amddiffyn coed rhag pori a chyn adeiladu ffyrdd neu draciau newydd.

Mae angen ystyried yn ofalus a dod i gytundeb gyda holl ddeiliaid comin cyn dechrau ar unrhyw waith allai amharu ar hawliau deiliaid comin.

Cyn gwneud cais am grant Creu Coetir Glastir, cyngorir perchnogion tir a rheolwyr i: Ddod i gytundeb gyda holl ddeiliaid hawliau comin a'r perchennog tir ynghylch lleoliad y safle plannu newydd. Mae'n rhaid anfon tystiolaeth o'r cytundeb hwn i ddilyswyr Creu Coetir Glastir fel rhan o broses ddilysu Coetir Glastir.

Cael caniatâd Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth Cymru i waith ffensio sy'n gysylltiedig â'r gwaith plannu coed.

### **2. Canllawiau arbennig ar dir mynediad agored**

Mae'n rhaid i gynlluniau Creu Coetir Glastir ar dir Mynediad Agored a ddynodwyd dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 sicrhau nad yw mynediad i'r tir dan sylw yn cael ei rwystro.

Os yw meddiannydd y tir yn dymuno gosod camfeydd neu gatiâu ychwanegol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn tir Mynediad Agored, mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r Awdurdod Lleol am ganiatâd i wneud hynny. Gall Awdurdodau Lleol ond awdurdodi camfeydd/gatiâu newydd lle mae eu hangen i reoli stoc (gan gynnwys cadw anifeiliaid gwyllt allan e.e. ceirw) ar fathau penodol o dir (gan gynnwys tir amaethyddol), ac ar lwybrau troed neu lwybrau ceffylau yn unig.

Yn achos aredig (gan gynnwys gweithrediadau coedwigaeth sy'n debyg i aredig), drilio (gan gynnwys gweithrediadau coedwigaeth sy'n debyg i ddrilio) a ffensio, caiff unrhyw hawliau mynediad dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) eu hatal am 12 mis. Yn ystod y flwyddyn, gall y perchennog/meddiannydd ffensio safle plannu newydd ond ar ôl blwyddyn, mae'n rhaid sicrhau bod mynediad i'r tir unwaith eto. Os yw'r tir hefyd yn Dir Comin, bydd deddfwriaeth Tir Comin mewn cysylltiad â ffensio hefyd yn berthnasol.

Os penderfynir yn adolygiad nesaf tir Mynediad Agored (sy'n digwydd bob 10 mlynedd) nad yw'r tir yn bennaf fynydd-dir, gweundir neu rostir, mae'n bosibl ei ddileu oddi ar Fap Terfynol Mynediad Agored. Nid oes mecanwaith i ddileu'n barhaol hawliau mynediad o dir sydd wedi'i ddynodi'n dir mynediad agored dan adran 16 o Ddeddf CROW. Er hynny, mae'n bosibl i dir a ddynodwyd gan brydleswr newid pan ddaw'r les i ben.

Am wybodaeth bellach ar fynediad agored, cysylltwch â:

<https://naturalresources.wales/out-and-about/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/open-access-land>